

Cwestiwn ac Ateb

Beth nesaf?

Rydyn wedi cynllunio i bob plentyn i ddod mewn yn wythnosol am y 3 wythnos nesaf. Does dim gwahaniaeth os ydych heb ateb holiadur y Sir nag y chwaith os ydych wedi newid eich meddwl. Rydyn wedi cymryd hyn mewn i ystyriaeth wrth weithio allan capasiti dyddiol sef 108.

Sut fyddwch yn sicrhau fod pawb yn ddiogel?

Bydd pob grwp o 8 yn cyrraedd dros gyfnod o amser (Adran Iau 10 munud ar wahan, Cyfnod Sylfaen 15 munud ar wahan). Bydd y plant mewn grwpiau tua 8 ymhob dosbarth.

Adran Iau

- Dim ond 8 cadair a desg ar gyfer 8 plentyn sydd ym mhob ystafell.
- Mae pob cadair a desg wedi eu gosod ar wahan er mwyn bod 2m oddi wrth ei gilydd.
- Mae gan bob ystafell sinc a chyflenwad o sebon, tywelion papur a sanitiser.
- Mae arwyddion ymhob dosbarth am gadw pellter diogel i 2m.
- Mae system unffordd tu allan ar y llwybr i'r dosbarthiadau ar gyfer dod mewn a gadael yr adeilad.
- Mae gan bob blwyddyn ei bloc toiledau ei hunan.
- Bydd y corridor ond yn cael ei ddefnyddo i fynd i'r tai bach (system 2 ffordd wedi ei farco).
- Mae pob yn ail sinc wedi cael ei blocio i ffwrdd er mwyn sicrhau pellter diogel yn y tai bach.
- Ni chaniateir chwythwr aer i sychu dwylo – tywelion papur yn unig.

Cyfnod Sylfaen

- Bydd 3 grwp yn y neuadd ar y tro gyda mynedfeydd penodol.
- Mae'r neuadd wedi cael ei rhannu yn 3 a'r disgyblion i gyd yn cadw at ei hardal nhw (swigen).
- Ni fydd desgiau yn y neuadd gyda phob plentyn ag ardal penodol i eistedd ar fat.
- Bydd system unffordd o gwmpas y neuadd.
- Bydd sanitiser wrth y 2 fynedfa.
- Am hanner dydd bydd y llawr a'r matiau a'r adnoddau a ddefnyddir yn cael eu golchi am sesiwn y prynhawn.

Bydd yr Ysgol yn cael ei glanhau ddwywaith y dydd ac yn cael ei glanhau yn fwy trylwyr ar ddydd Mercher a phrynhawn Gwener.

A fydd rhaid gwisgo gwisg Ysgol?

Rydyn yn deall y byddwch am olchi dillad eich plant ar ôl pob ymweliad a mae hynny'n haws gyda dillad ysgafn. Felly gofynnwn i bob un i wisgo ei dillad ymarfer corff sef crys T coch neu

un eich llys, siorts, leggings/ tracwsg ac esgidiau ymarfer corff. Ni chaniateir unrhyw sandale, fflipflops neu crocs (er diogelwch).

Pa mor aml fydd y plant mewn.

Un waith yr wythnos (bore neu brynhawn yn y Babanod) ar yr un diwrnod bob wythnos tan 17/7/20.

Beth fydd natur y profiadau?

Bydd y pwyslais yn bennaf ar hyrwyddo lles, cyfle i drafod sut maent wedi llwyddo i gwblhau tasgiau dysgu o hirbell ac ymglyfarwyddo gyda bod nôl yn yr Ysgol a'r safle dan y gofynion newydd.

A all y plant newid llyfrau darllen?

Mae croeso i blant ddod a'u llyfre darllen nôl. Byddwn yn rhoi nhw mewn cwarantin am 48 awr ac yna nol ar y silff. Mae gennym ddigon o gyflenwad fel bod y plant yn gallu cael llyfrau o'r silff sydd heb cael ei defnyddio ers mis Mawrth.

A fydd angen dod a chas pensil?

Na. Rydyn wedi paratoi pecynnau unigol (pensil, pren mesur ayyb) i bob plentyn mewn pecyn plastic gyda enw'r plentyn. Bydd rhain yn cael eu rhoi gadw tan ymweliad nesaf y plentyn.

A fydd angen dod a rhywbeth gyda nhw?

Bydd offer sydd angen i gyd yn yr Ysgol (gweler uchod) ond fe fydd angen potel ddwr (wedi labelu). Gan fod y tywydd yn braf a wnewch chi sicrhau fod eli haul ar groen eich plentyn CYN dod i'r Ysgol bob dydd. Os yw'ch plentyn ar unrhyw feddyginiaeth cofiwch ddod a hwnnw nol i'r Ysgol ar y diwrnod cyntaf a'i roi i'r staff. Mae het haul yn syniad da hefyd gan y byddwn yn treulio amser tu allan os bydd yn braf. Os fydd yn glawio cofiwch ddo a chot law. Does dim angen bagiau gan fydd ffrwyth ar gael i bawb yn ddyddiol ar gyfer amser egwyl

Ble fydd fy mhlentyn yn mynd wedi cyrraedd yr Ysgol?

Plant yr hwb yn unig fydd yn defnyddio prif fynedfa.

Bydd yr Adran Iau yn dod i glwyd yr Ysgol fel arfer (ar yr amseroedd a nodwyd yn yr ebost unigol i rieni). Bydd y disgyblion yn cerdded lan drwy'r iard (2m ar wahan) ac i fyny'r grisiau allanol bloc yr Adran Iau ac yn cerdded tu allan nes dod at eu dosbarth. Byddant yn aros ar bwys y drws tân (gan gadw at belter o 2m) tan y cant eu galw i mewn. Byddant yn mynd i mewn drwy'r drws tân.

Bydd y Babanod yn cyrraedd ar waelod grisiau neuadd chwaraeon erbyn yr amser a nodwyd yn y llythyron tan y cant eu galw i fynd i fyny'r grisiau. Byddant yn cael eu harwain i fynd mewn i'w mynedfa benodol.

A fydd pob plentyn y Derbyn mewn bob dydd Mawrth?

Bydd y derbyn i gyd mewn ar ddydd Mawrth; 3 grwp yn y bore a 3 yn y prynhawn. Bydd gan bob grwp 'swigod' a phawb ond yn cael bod yn y swigod. Staff y derbyn gyda nhw yn y neuadd chwaraeon.

Sut fydd yr Ysgol yn rheoli pellter cymdeithasol?

Mae arwyddion a marciau ar y llawr, yn y dosbarth ac ar y coridorau ac ar y llwybr. Bydd staff hefyd yno i atgoffa. Mae hyn yn anodd gyda'r plant lleiaf a mae'n syniad da i rieni i ddysgu hyn er mwyn paratoi hefyd.

Fyddan nhw'n cael egwyl?

Byddant – pob grwp o blant ar amserau gwahanol ar yr iard. Ar gyfer gweithgareddau tu allan (ar y cae) bydd plant yn cadw gyda grwpiau swigen gyda pellter 2m.

A fydd y plant yn cwrdd ag athrawon mis Medi?

Fel arfer bydden ni'n cael diwrnod lle mae plant i gyd yn mynd i'r dosbarth newydd. O dan y trefniadau presennol dydy hynny ddim yn bosib. Rydyn ni'n gweithio ar ffordd ddiogel o wneud hyn gan gadw at reolau ymbellhau.

A fydd y maes parcio ar agor?

Bydd. Rydyn ni'n annog cyn gymaint a phosib i gerdded, neu deithio ar feic. Dim ond rhyw 100 o blant fydd yma ar y mwyaf a mae gan bob grwp amser penodol i gyrraedd a gadael y safle. Mae marciau ymbellhau yr holl ffordd i fyny o'r maes parcio. Disgwylwn i bob oedolyn i barchu cadw pellter 2m ar bob achlysur.

Os fydd rhieni yn dewis peidio a danfon ei plant a fydd yn rhaid rhoi gwybod ymlaen llaw?

Nag oes. Byddwn yn cadw cofrestr i wybod pwy sydd mewn ond does dim angen ffonio gan fod hyn yn wirfoddol. Byddai'n hyfryd i weld cymaint o blant a phosib.

A fydd y plant yn cael gwybod am ei grwpiau ymlaen llaw?

Gan ein bod wedi trefnu fod pob dosbarth/ blwyddyn i mewn ar yr un diwrnod bydd y plant yn cael gweld ei ffrindiau 'o bell'. Rydyn wedi creu y grwpiau ffrindiau (cyn gystal a phosib o dan yr amgylchiadau).

Dydy'r rhestr hon ddim yn gyflawn o bell ffordd a byddwn yn ei diweddarau ar wefan yr Ysgol.

Cofiwch ddarllen y canllawiau sydd ar wefan y Fro a'r Llywodraeth gan ein bod wedi cyfeirio at y rhain wrth gynllunio: -

<https://gov.wales/education-coronavirus>